

Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2014-17: Sir y Fflint

Mawrth 2014

UCAC | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2014-17: Sir y Fflint

Mae UCAC yn croesawu'r cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn gan Gyngor Sir y Fflint ar ei Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2014-17.

Mae UCAC yn undeb llafur sy'n cynrychioli athrawon, arweinwyr ysgol a darlithwyr ym mhob sector addysg yng Nghymru.

Adran 1: Gweledigaeth a nodau ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg

Mae'r weledigaeth yn weddol glir o ran blaenoriaethau'r Awdurdod yn ystod cyfnod y Cynllun.

Adran 2: Y Cynllun Gweithredu

Deilliant 1: Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

Mae'r amlinelliad a'r dadansoddiad o'r sefyllfa gyfredol yn glir. Croesawn y ffaith fod targed clir ar gyfer cynyddu'r ganran o blant saith oed sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r camau gweithredu sydd eisoes ar y gweill, ac y bwriedir eu cymryd ar lefel yr Awdurdod ac yn rhanbarthol yn ymddangos yn gadarnhaol ac yn gweddu i'r amgylchiadau.

Mae llawer i'w groesawu yn yr adran hon, yn enwedig y pwyslais ar gydweithio â rhanddeiliaid, codi ymwybyddiaeth a chyfathrebu clir gydag aelodau etholedig ac eraill, y bwriad i ehangu'r ddarpariaeth feithrin, a'r rhaglen drochi.

Deilliant 2: Mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd

Unwaith eto, croesawn y wybodaeth/dadansoddiad o'r sefyllfa gyfredol a ddarperir, a'r targedau mesuradwy a chamau gweithredu penodol a fydd yn arwain at gynnal neu gryfhau'r ddarpariaeth a niferoedd y dysgwyr, yn ôl y gofyn.

O ran 2.1, nid grybwyllir y posibilrwydd o gydweithio a chodi ymwybyddiaeth ymhlith ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg – onid yw'n bosib bod ambell i blentyn yn yr ysgolion hyn fyddai am fynd i ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg – ac yn enwedig felly os yw'r rhaglen drochi'n cael ei hymestyn.

Deilliant 3: Mwy o fyfyrwyr 14-16 oed yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg

Deilliant 4: Mwy o fyfyrwyr 16-19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, mewn ysgolion, colegau a dysgu seiliedig ar waith

Mae'r trefniadau cyfredol a'r cynlluniau ar gyfer y blynyddoedd nesaf yn ymddangos yn drefnus ac yn canolbwyntio mewn modd priodol ar rôl y Gymraeg yn systemau addysg yr awdurdod a'r rhanbarth ehangach – er bod rhai materion o bryder at y dyfodol yn sgil dirwyn y grant i ben a'r trefniadau ariannu ôl-16 newydd.

Deilliant 5: Rhagor o fyfyrwyr â sgiliau uwch yn y Gymraeg

Unwaith eto, cymeradwywn gynnwys yr adran hon o'r Cynllun yn gyffredinol.

Gwella darpariaeth a safonau Cymraeg Ail Iaith: Nid oes ffigyrau penodol yn cael eu nodi ar gyfer y niferoedd nad ydynt yn sefyll cymhwyster wedi'i achredu'n allanol ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4. Serch hynny, mae modd cyfrifo bod y ffigwr oddeutu 35%, sydd yn uchel. Bydd angen cymryd camau penodol a gosod targedau ar gyfer sicrhau bod y ffigwr hwn yn gostwng.

Deilliant 6: Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol cyfrwng Cymraeg

Mae'r dadansoddiad a'r camau gweithredu'n ymddangos yn gadarn. Mae llawer i'w groesawu o ran y camau y mae'r Awdurdod eisoes yn eu cymryd ac wedi'u cynllunio ar gyfer y blynyddoedd nesaf, yn enwedig y bwriad i asesu'r galw am wasanaeth ADY Cymraeg yn rhan o'r asesiad ehangach o alw am addysg cyfrwng Cymraeg; y bwriad i sicrhau bod y Gymraeg yn ofyniad hanfodol wrth recriwtio i feysydd ble mae bylchau; a'r ffaith y bydd darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn cael ei brif-ffrydio yn yr adolygiad o ddarpariaeth ADY. Mae'r systemau ar gyfer ymgynghori â rhieni i'w croesawu'n fawr yn ogystal.

Deilliant 7: Cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus

Mae llawer i'w groesawu yn yr adran hon.

O ran 7.1, awgrymwn y byddai'n werth cysylltu â'r canolfannau Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon eraill yng Nghymru, yn ogystal â Phrifysgol Bangor - gan mai dim ond 3 chanolfan (ar 6 safle) sydd i gyd. Mae'n bosib bod rhai o'r ANGau yn barod i deithio i ardaloedd newydd i gael gwaith, yn enwedig yn sgil prinder swyddi parhaol/llawn amser ar hyn o bryd.

Cytunwn yn llwyr â'r dadansoddiad ynglŷn â'r angen am gynlluniau rhanbarthol a chenedlaethol ar gyfer meithrin arweinyddiaeth.

Atodiad 4

Nid yw'n amlwg i ni pam bod cymaint o ddysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cael asesiad athrawon Cymraeg Ail Iaith (71 yng Nghyfnod Allweddol 2, a 96 yng Nghyfnod Allweddol 3). Mae hyn yn ymddangos yn rhyfedd, ac ni chynigir unrhyw esboniad.



UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru



Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU

ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@athrawon.com

[f facebook.com /AthrawonCymru](https://www.facebook.com/AthrawonCymru) [t twitter.com /AthrawonCymru](https://www.twitter.com/AthrawonCymru)